# Llais Llandyrnog Voice


llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Hydref 2024 – Cyfrol 10 – Rhifyn 1


## Trigolion y pentre ar daith





Sardinia, yr Almaen a Tanzania – mae pobl o Landyrnog wedi bod ar daith. Diolch i'r rheini sydd wedi rhannu eu stori â ni.



### Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyntaf

**Siop Gymunedol Llandyrnog Cyf.**




**Nos Fawrth, 8 Hydref am 7pm**

**Neuadd Bentref Llandyrnog**

**Croeso i bob cyfranddaliwr ac i westeion/ymwelwyr**

# Pytiau newyddion

Rydym yn hynod o falch clywed bod Elwyn Evans, Malcolm Hughes, a John Hugh Roberts, yn gwella ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty.

Pob dymuniad da hefyd i Edith Hughes ac i Ruby Grace, Craiglea sydd hefyd wedi bod yn yr Ysbyty.

Pen-blwydd hapus i Elfor Morris a fydd yn dathlu'r 50 ar 12 Hydref.

Llongyfarchiadau i Conor ac Elin Carrington-Sykes ar eu priodas yn eglwys St Tyrnog.

Hefyd i Dafydd Roberts a Ron Davison ar ddringo Mynydd Kilimanjaro. Codwyd £3500 tuag at Prostate Cancer UK a Lawcare, yr elusen iechyd meddwl ar gyfer y sector cyfreithiol.




Diolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi i godi arian at Eisteddfod Llandyrnog – codwyd £536.

**EISTEDDFOD LLANDYRNOG**
**5 o'r gloch, nos Wener, 18 Hydref**
**yn Neuadd y Pentref**

***Dewch i wrando ar ddoniau'r pentre!***

# Y diweddaraf o'r ffatri

Mae llawer o waith i'w wneud eto yn yr hen hufenfa, ond rydyn ni wedi bod yn cynhyrchu yno ers pum mis bellach, gyda nifer bach o weithwyr. Dylai'r prif gyfleusterau cynhyrchu a'r warysau fod yn barod erbyn diwedd y flwyddyn. Gobeithio y bydd y bloc lles wedi'i orffen erbyn canol mis Hydref, a'r swyddfeydd wedi'u gorffen erbyn diwedd mis Hydref. Bydd arwyddion newydd wedi'u gosod ymhen ychydig wythnosau, yn lle'r hen arwyddion Arla cyfarwydd.

Y bwriad yw symud yr holl weithwyr i'r safle yn y Flwyddyn Newydd.

*Harvey Jackson*
*Cyfarwyddwr rheoli*

MACMILLAN CANCER SUPPORT

Cododd y bore coffi a chacen yn yr Ystafelloedd Coco £345 tuag at Macmillan Cancer Support. Diolch i bawb a gefnogodd.

**Prompt Travel**
**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

**Incorporating Vale Private Hire**

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**
**Tacsi a Hurio Preifat**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 7fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | 8eg | Clwb Llyfrau 10am |
| Mer | 9fed | Undeb y Mamau 2pm |
| Llun | 14eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 15fed | Cyfarfod y Cyngor Cymuned 7pm |
| Mer | 16eg | Tuesday Club, 2pm |
| Llun | 21ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 22ain | Clwb Llyfrau 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Iau | 24ain | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | 26ain | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |
| Llun | 28ain | Grŵp cwiltio 7pm |

I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk


TY CEFFYL BACH

Facebook 07768 331488 Instagram

www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**




# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Mer 2il | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 5ed | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Sul 6ed | Ffair grefftau | 10am–3pm |
| Llun 7fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30-9–pm |
| Maw 8fed | Cyfarfod Blynyddol Siop Llandyrnog | 7–9pm |
| Mer 9fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 12fed | Cyngerdd Côr Meibion Caerwys | 7–9pm |
| Sul 13eg | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 14eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30-9.30pm |
| Mer 16fed | Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Hanes | 6.30pm |
| | Siaradwr gwadd: Gareth Evans, Ystadau Dyffryn Clwyd | 7pm |
| Gwe 18fed | Eisteddfod | 5pm |
| Sul 20fed | Parti pen blwydd | |
| Llun 21ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30-9.30pm |
| Mer 23ain | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe 25ain | Disco Calan Gaeaf yr ysgol | |
| Sad 26ain | Bore coffi – Dementia UK | 10–11.30pm |
| Sul 27ain | Parti pen blwydd | |
| Llun 28ain | Brownies | 4–7pm |
| | Côr | 7.30-9.30pm |

I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

# Be sy mewn cae?: parhad o erthygl mis Medi

Mae'r eitemau y cafwyd hyd iddyn nhw ar gaeau Llangwyfan yn rhychwantu cyfnod o 1100CC, tua 3100 o flynyddoedd yn ôl, hyd at heddiw. Dyma ddangos cymaint o drigolion, ymwelwyr a theithwyr sydd wedi bod ar draws y cae a'r rhai cyfagos!

- Darnau arian o sawl cyfnod hanesyddol, o deyrnasiad George VI (1936–1952), mor bell yn ôl â chyfnod y Rhufeiniad. Cafwyd hyd i fathau eraill o ddarnau arian, gan gynnwys darn arian Soldino o'r Eidal. Cafodd y rhain eu defnyddio yn ystod cyfnod o brinder o ddimeiau a fathwyd yn Lloegr yn ystod y 15fed ganrif a'r 16eg. Hefyd, ceiniogau Môn, a fathwyd ar gyfer cwmni mwyngloddio Mynydd Parys.
- Sawl eitem o gyfnod y Rhufeiniaid, y Canol Oesoedd a'r Oes Efydd, ynghyd â botymau, gemwaith, bathodynnau, teganau, byclau, cyllyll a ffyrc, ac eitemau'n gysylltiedig â smocio a cheffylau.
- Sawl eitem o ryfeloedd, yn bennaf o'r Ail Ryfel Byd.

Mae'r eitemau y cafwyd hyd iddyn nhw yn dangos bod pobl wedi byw yn yr ardal ers yr Oes Efydd. Cafwyd hyd i'r rhan fwyaf o'r darnau arian a'r arteffactau ger y caeau isaf a'r man lle daeth yr arteffactau o gyfnod y Rhufeiniaid i'r golwg. Mae'r ardal o gwmpas yr eglwys yn dangos bod y safle hwn wedi'i ddefnyddio ers talwm iawn, gan ystyried nifer o ddarnau arian o wahanol ganrifoedd y cafwyd hyd iddyn nhw yno.

Mae'r ddau flaen picell efydd yn dod o ddiwedd yr Oes Efydd, ac mae'n bosib bod un hyd yn oed yn hŷn. Mae'r ddau wedi'u difrodi, ac efallai fod hyn yn fwriadol (wedi'u defnyddio i ladd) a'u bod nhw gerllaw safle claddu anhysbys o'r Oes Efydd. Gallai'r copr wedi dod o fwynfeydd Pen y Gogarth a'u toddi ym Mhen Trwyn. Y ddau safle yma yw'r unig rai hysbys a oedd yn gweithredu ddiwedd yr Oes Efydd.

Does dim llawer o arteffactau wedi dod i'r golwg yn y fryngaer o'r Oes Haearn ar Benycloddiau, felly gallai'r ddau flaen picell fod yn bwysig. Maen nhw dangos gweithgaredd yn ystod yr Oes Efydd ar ochr y bryn, gerllaw ffynhonnell o ddŵr.

Y 'Roman Road' yw'r enw cyfarwydd ar y lôn sydd uwchben y caeau ond mae'n bosib ei bod wedi'i chreu cyn cyfnod y Rhufeiniaid, ac yn cysylltu bryngaerau yr Oes Haearn. Mae'n siŵr bod y Rhufeiniaid wedi dilyn llwybrau a oedd yn bodoli eisoes wrth chwilio am blwm ac aur yn y mynyddoedd.

Mae'r lôn (Rufeinig) yn arwain at Foel Arthur, ac mae bryngaer o'r Oes Haearn ar ei phen. Mae'n bosib bod tomen gladdu o'r oes efydd yn ei chanol. Chwiliwyd am aur ar y bryn hwn yn ystod y rhuthr am aur yng Nghilcain. Wrth gloddio yn 1849, cafwyd hyd i nifer o ddarnau arian Rhufeinig a chrochenwaith coch, ynghyd â blaenau saethau, fflint a.a. Yn sgil storm law yn 1962, daeth tri phen bwyell o'r oes efydd i'r golwg.

Mae'r darganfyddiadau yn y Parciau a chaeau eraill Llangwyfan yn dangos eu bod wedi cael eu defnyddio a'u ffermio am bron iawn i 3000 o flynyddoedd. Rydyn ni'n siŵr bod llawer o hanes i ddod i'r golwg eto yn y caeau!

*Julia Hughes*





# Ymweliad teimladwy

Ym mis Medi, fe aethon ni fel teulu i goffáu fy hen ewythr, Cornelius Keefe, a fu farw 80 o flynyddoedd yn ôl ar 13 Medi, 1944. Gyda'n plant, fy rhieni, a'n hŵyr, Rowan, aeth pedair cenhedlaeth o deulu Keefe i goffáu'r pumed. Y tro diwetha i mi fod oedd ar gyfer coffáu 65 mlynedd ers i farwolaeth, gyda fy nhad a fy mrawd.

Doedd dim rhaid i Cornelius a'i frodyr (gan gynnwys fy nhaid, 'Pop') fynd i ryfel, gan eu bod yn gweithio yng ngwaith dur Brymbo. Fel y brawd hynaf, roedd Cornelius o'r farn y dylai un ohonyn nhw wasanaethau ac fe wirfoddolodd, fel nad oedd rhaid i'w frodyr iau wneud.



Roedd yn ysgrifennydd i Henry Beyer Robertson, perchennog y gwaith dur cyn y rhyfel. Cartref teulu Robertson oedd Palé Hall, sydd yn westy hyfryd erbyn hyn.
Roedd Cornelius wedi dyweddïo ac yn bianydd gwych a oedd yn chware mewn cyngherddau yn Wrecsam.

Ar ôl ymuno â'r Awyrlu a chwblhau 25 cyrch, syrthiodd awyren Cornelius ar ei gyrch olaf. Dyma eiriau Mike Napier, Cymdeithas Sgwadron 14: 'Cododd yr awyren o Alghero (gogledd Sardinia) am 05.50 a tharo yn erbyn tir uchel wrth iddyn nhw droi tuag at eu cyrch. "Camgymeriad gan y peilot" achosodd y ddamwain, gan fod cyfarwyddiadau'r maes awyr yn gwahardd troi i'r cyfeiriad hwnnw mewn tywyllwch oherwydd y perygl o hedfan i mewn i'r bryn arbennig hwnnw. Nid yw hi'n glir pam yn union y gwnaeth y peilotiaid gamgymeriad o'r fath. Cafodd y criw i gyd eu lladd ... Mae gen i lun o weithwyr y Sgwadron yn dychwelyd o angladd yn Sardinia.'

*Pat Keefe*




*Pedair cenhedlaeth ger bedd Cornelius Keefe ym Mynwent Cagliari, Sardinia*

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Dod i adnabod... Jackie Le Fèvre

*Beth yw eich cefndir, Jackie?*

Cefais fy ngeni yn Romford, Essex. Fe es i'r Ysgol Uwchradd yn Swydd Derby ac wedyn i Brifysgol Sheffield. Ar ôl graddio mewn swoleg, fe wnes i ddwy flynedd a hanner o waith gwirfoddol gyda mwncïod gwlanog yng Nghernyw ac wedyn yn gollwng *chimpanzees* yn ôl i'r gwyllt yn y Gambia, Gorllewin Africa. Fe arhosais ym maes elusennau a chadwraeth natur am ugain mlynedd cyn dechrau fy musnes fy hun, Magma Effect.

Pan oedd ein merched yn ifanc, roedden ni'n byw yn Sir Gaerhirfryn ac wedyn yn Sir Gaer, gan dreulio'r gwyliau hanner tymor yng Nghymru yn aml. Fe ddaethon ni i hoffi'r wlad a'r bobl yn fawr, felly fe wnaethon ni fachu ar gyfle yn ystod dyddiau anodd 2020 i symud i'r rhan brydferth hon o'r wlad, i Greenfield.

*Pa dri lle sydd ag arwyddocâd arbennig i chi?*

Yn gyntaf: Pays de la Loire yn Ffrainc. Atgofion hapus am wyliau gwersylla yn ystod fy mhlentyndod ac anturiaethau gyda fy mhlant fy hun, boed yn ymweld â chastell, padlo canŵ i lawr afon, neu yfed diod befriog ar deras Gratien & Meyer, y gwneuthurwyr gwin. Hefyd dyma ble mae fy hoff le, Le Grand Parc, lle mae cleddyfwyr yn rasio'i gilydd mewn cerbydau rhyfel, llongau Llychlynwyr yn mynd i'r môr, a murfylchau – *battlements* – yn cael eu hamddiffyn o flaen eich llygaid.

Yn ail: fy ngardd, yn enwedig ble mae'r ffrwythau a'r llysiau'n tyfu, er bod y tymor diwetha hwn wedi bod yn hunllef – mae'r dail letys yn llawn tyllau, diolch i'r malwod duon. Yn ffodus, mae fy ymgais gyntaf i impio afalau Cymreig yn eitha llwyddiannus.

Yn olaf, Iwerddon: gogledd, de, dwyrain a gorllewin – gwlad brydferth gyda phobl a bwyd gwych, ac er nad ydw i'n ei yfed, rwy'n cael ar ddeall bod y Guinness yn wych hefyd.

*Beth sydd yn eich gwylltio chi?*

Diffyg goddefgarwch. Un blaned sy gennym ni, ac un hil ddynol. Dim ond un bywyd sydd gennym ni. Felly dewch i ni wneud yr hyn a allwn i helpu'n gilydd a'r amgylchedd – rydyn ni i gyd yn dibynnu ar hwnnw.

Hefyd: dydw i ddim yn dal iawn – 5'3" – ond does bosib y gallai mwy o'r pethau dwi am eu prynu mewn archfarchnadoedd fod o fewn fy nghyrraedd???!

*Pwy fyddech chi'n ei wahodd am bryd o fwyd gyda chi, yn fyw neu farw?*

A gaf i fwrdd go fawr? Yn gyntaf, rhaid i Dad ddod (sydd wedi'n gadael ni, yn anffodus) – un da iawn am ddweud stori. Byddai'n eistedd wrth ymyl Spike Milligan – roedd Dad yn hoff iawn ohono. Byddai'r gwyddonydd ynof yn gwahodd Dr Jane Goodall – mae ei gwaith arloesol gyda chimpanzees yn dal i fy ysbrydoli; Syr David Attenborough oherwydd pob dim mae wedi'i wneud, a'r astro-ffisegwraig wych o Brydain, Dr Maggie Aderin-Pocok a fyddai wrth ei bodd gydag awyr dywyll Llandyrnog. Gan fy mod yn hoff o fynd i'r theatr, byddai eistedd rhwng Judi Dench a Martin Sheen, dau o fy hoff actorion, yn brofiad anhygoel. O'r gorffennol, byddwn yn falch iawn o glywed Nye Bevan yn sôn am wreiddiau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a Mary Keating Hill yn sôn am y frwydr dros y bleidlais i ferched yng Nghymru. Yn olaf, Shirley Bassey a Freddie Mercury, byddai'n braf cael canu i orffen y noson. Wrth gwrs, byddai fy annwyl Dave yno, wedi gwneud cyrri hyfryd.

*Beth yw'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol?*

Mae'r gwaith ar y tŷ yn dal i fynd yn ei flaen (mae'n amlwg) felly byddai'n braf gorffen y gwaith a chael ffordd o fyw mor garbon-niwtral â phosib.

Mae agor Siop Gymunedol Llandyrnog yn fy nghyffroi, a'i botensial i fod yn boblogaidd gan drigolion lleol ac ymwelwyr.

Yn olaf, pan fydd ein tŷ a'r ardd wedi gorffen, fe gawn ni gi (neu ddau) – ci o ganolfan achub, fwy na thebyg. Bleiddigi – *German Shepherd dog* – i Dave, neu llamgi – *springer spaniel* – dwl i fi.

# Jackie Le Fèvre: parhad

*Beth rydych chi'n falch ohono?*
Efallai'ch bod chi o'r farn fod hyn yn wirion, ond roeddwn wrth fy modd fy mod i wedi ennill y wobr gyntaf am fy sialóts yn Sioe Llandyrnog. Mae cystadlu yn dipyn o hwyl ac rwy'n annog pawb i roi cynnig arni'r flwyddyn nesa.

Dwi'n falch fy mod wedi cael doethuriaeth y llynedd am fy ymchwil mewn seicoleg i'r cysylltiadau rhwng gwerthoedd dynol a lles. Hefyd mae'n dipyn o hwyl pan fydd pobl yn gofyn 'Mrs neu Miss?', gallaf ateb 'Dr, a dweud y gwir'!



*Dr Jackie yn ei seremoni raddio*

# Undeb y Mamau




Yng nghyfarfod mis Medi, cawson ni ymweliad gan wirfoddolwyr Blood Bikes Wales gan ddysgu rhagor am y gwasanaeth arbennig iawn maen nhw'n ei ddarparu i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd eu hymroddiad i'r gwasanaeth hanfodol wedi creu argraff fawr arnon ni – cyfraniadau ariannol sy'n talu am eu holl weithgareddau.

**Diolch i bawb a gyfrannodd at y bore coffi a chodi £321 at goffrau'r Trefoil Guild.**




Bydd y gwasanaeth yn cynnwys cyngor ar sut i sicrhau'r incwm gorau,
cyngor ar fudd-daliadau lles, dyled, ynni'r cartref, tai a chyngor cyffredinol ehangach.
Bydd y rhan fwyaf o'r cyngor ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
*Gyda chefnogaeth Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog*

Bob dydd Gwener o 10am–12pm yn Yr Ystafelloedd Coco, Llandyrnog, LL16 4HG
**Cynigir cyngor drwy apwyntiad yn unig**
Cysylltwch ag Eleri Jones ar 01824 719623 neu anfonwch e-bost at: advice@cbac.co.uk

# Ymweliad â Biebertal

Ers rhyw bymtheg mlynedd, rydyn ni wedi bod yn aelodau o Gymdeithas Gefeillio Dinbych/ Biebertal. Enys a Peter Davies, Gwaenynog, gyda chefnogaeth pwyllgor gweithgar, sy'n rhedeg y gymdeithas.

Bwrdeistref o bentrefi ychydig i'r gogledd-orllewin o ddinas prifysgol Giessen (a gafodd ei chwalu'n llwyr yn yr Ail Ryfel Byd) yw Biebertal, i'r gogledd o Frankfurt, felly fwy neu lai yng nghanol yr Almaen. Mae tua deng mil o bobl yn byw ynddi, ychydig yn fwy na Dinbych. Lleoliad gwledig a natur gyfeillgar iawn trigolion Biebertal yw'r apêl i ni. Rydyn ni'n cael croeso mor hael ganddyn nhw pan fyddwn yn ymweld am yn ail flwyddyn. Ym mis Medi, cafodd deunaw ohonon ni brofi eu lletygarwch caredig, gan dreulio wythnos yn dysgu rhagor am y rhan hon o'r Almaen.

Yn y gorffennol, rydyn ni wedi ymweld â nifer o drefi bach hynafol yn yr ardal, sy'n llawn cymeriad. Roedd ein hwythnos yn llawn cyfleoedd amrywiol – er enghraifft, roedd un o'n lletywyr yn arbenigo mewn coedwigaeth. Fe anogodd ychydig ohonon ni i fod mewn cuddfan ar doriad gwawr i weld ceirw a mathau eraill o fywyd gwyllt. Yn anffodus, y cyfan welson ni oedd cynffon carw rhwng llwyni.

Mae ffermydd bach yma ac acw yn y rhan hon o'r Almaen, a thros y blynyddoedd rydyn ni wedi ymweld â nifer o fusnesau amrywiol fel cwmni tyfu gelod ar gyfer y diwydiant meddygol, cloddio am fwynau metel dan ddaear, ac wrth gwrs, gwinllannoedd a bragdai.

Mae hyn yn dangos bod cyfleoedd da am swyddi ar gael i bobl ifanc yn sgil y gweithgareddau hyn, er bod yr ardal yn un amaethyddol yn bennaf. Gan fod Giesson yn lled agos at Biebertal, mae nifer o bobl leol yn gweithio yn y ddinas.

Yn ystod ein hymweliad diweddar, roedd dwy daith yn hynod ddiddorol.

Eberbach yw un o'r mynachdai hynaf a mwyaf yn yr ardal. Cafodd ei godi yn y ddeuddegfed ganrif ac roedd yn gartre mawr i ryw gant o fynachod a'r un nifer o staff ategol tan y bymthegfed ganrif, pan gafodd ei ysbeilio gan filwyr o Sweden a thalaith Hesse. Sefydlodd y mynachod winllan lwyddiannus ac mae'n dal i gynhyrchu gwin Riesling da hyd heddiw.

Ar ôl i'r mynachod adael, aeth yr adeilad gwych â'i ben iddo a chafodd ei ddefnyddio at sawl pwrpas amrywiol iawn, gan gynnwys cadw gwartheg!

Mae'r gwaith trwsio wedi bod yn digwydd dros y canrifoedd, a daeth y mynachdy yn ôl i sylw'r cyhoedd gyda ffilmio *The Name of the Rose*, a Sean Connery yn brif actor ynddi, ganol yr wythdegau. Dangoswyd piler ffug i ni a oedd wedi'i wneud o bren caled. Cafodd hwn ei wneud ar gyfer y ffilmio, ac mae'n dal i edrych fel piler carreg hyd heddiw. Erbyn hyn mae'r mynachdy mewn cyflwr ardderchog ac mae'r gymuned leol yn ei reoli. Mae'n denu llawer iawn o dwristiaid.



*Margaret (ar y chwith) a Mary (ar y dde) ger y mynachdy*

Taith ddiddorol arall oedd i ddinas gaerog Koblenz, ger y man lle mae afon Rhine ac afon Moselle yn llifo i'w gilydd. Ardal Rhein yw un o'r mannau pwysicaf yn y byd o ran gweithgynhyrchu cemegion , ac mae'r deunyddiau'n cael eu mewnforio a'u hallforio

# Biebertal: parhad

drwy Rotterdam. Er gwaethaf pwysigrwydd diwydiannol yr ardal, mae Koblenz yn dal i fod yn un o ddinasoedd prydferthaf yr Almaen, gyda gwinllannoedd, fforestydd a phedair cadwyn o fynyddoedd yn gefndir hardd iddi.

Yn hen dref Koblenz mae amrywiaeth o sgwariau a bwytai dengar ond y man mwyaf diddorol yw'r un lle mae'r ddwy afon y cyfarfod. Y Gornel Almaenig yw'r enw ar y man hwn, a gallwch fynd mewn car cebl a agorwyd yn 2010. Mae'r daith bron yn kilometr o hyd ac mae'n eich codi dros 100 metr hyd at y gastell gaerog ac oddi yno mae golygfeydd o'r afonydd Rhein a Moselle.

Ar allt Ehrenbreitstein mae castell anferth yn edrych dros ardal eang. Roedd yn gastell pwysig iawn pan oedd Ffrainc a'r Almaen yn gwrthdaro ryw dri chan mlynedd yn ôl.

Unwaith eto roedd ein gwesteiwyr wedi trefnu wythnos hynod ddiddorol, a sawl taith arall wedi'u trefnu o gwmpas ardal Biebertal.

Cryfhaodd yr wythnos y cysylltiadau rhyngon ni a rŵan rhaid i ni ystyried ymweliad priodol pan fyddan nhw'n dod i Ddyffryn Clwyd fis mai nesaf. Bob blwyddyn maen nhw'n dweud wrthon ni, 'Wnewch chi ddod â rhagor o aelodau y tro nesa?' Felly, beth am ymuno â ni?

*Rod and Margaret Williams*
*Mary Mars Lloyd*

# Gild Trefoil

Mary Steel oedd ein siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Medi. Testun sgwrs Mary oedd y merched o Guernsey a gafodd eu symud i Ddinbych yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac a dreuliodd cyfnod y rhyfel yn Ysgol Howell. Fe gawson nhw ofal da ac addysg gan eu hathrawon eu hunain. Roedd pobl Dinbych yn hynod garedig wrthyn nhw.

Tynnwyd y raffl a mwynhaodd pawb baned. Cododd y bore coffi £321 tuag at y coffrau. Cyfarfod Diolchgarwch fydd yr un nesaf, gan dderbyn cyfraniadau tuag at y banc bwyd.

# Llan Llanast

Yn sesiwn mis Medi, buon ni'n sôn am yr holl greaduriaid mae Duw wedi'u creu a phwysigrwydd gofalu amdanyn nhw i gyd. Hefyd dysgon ni fod angen i ni fod yn garedig wrth bobl eraill, yn enwedig pobl unig sydd heb ffrindiau. Fe wnaethon ni bob math o gweithgareddau'n ymwneud ag anifeiliaid, a gwesty mawr i'r buchod goch cwta i fynd i fynwent eglwys St Tyrnog.



Bydd ein sesiwn nesa bnawn dydd Sul, 13 Hydref am 3.30 ac mae croeso cynnes i bawb.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com

# Cyfarchion o'r Rheithordy



Rheithordy Trefnant, hynny yw! Y Parchedig Rebecca ydw i, arweinydd Ardal Genhadaeth Dinbych ac ar hyn o bryd yn gofalu am bob un o'r 12 eglwys nes bydd ein hoffeiriadon newydd, y Parchedig Sam a'r Parchedig Dan yn ymuno â ni ddiwedd mis Tachwedd. Dwi'n siŵr y bydd sawl un yn methu'r Parchedig Martin a'i deulu eisoes ar ôl iddyn nhw symud i gaplaniaeth y fyddin yn Lloegr. Byddwn yn meddwl amdanyn nhw ac yn gweddïo drostyn nhw wrth iddyn nhw ddechrau'r antur fawr hon.

Dwi'n edrych ymlaen at gyfarfod nifer ohonoch chi dros y misoedd nesaf a gobeithio y byddaf yn gallu dod i ddigwyddiadau lleol, yn enwedig boreau coffi y pentre a Llan Llanast. Yn ogystal â dathlu gyda chi mewn priodasau, bedyddiadau a gwasanaeth eraill yn yr eglwys.

Dwi'n fam i dri o blant – mae'r hynaf wedi gadael y cartref, mae un yn y coleg ac mae'r ieuengaf yn astudio at yr arholiadau TGAU. Mae gennym ni gi mawr, gor-gyfeillgar, sydd braidd yn ddwl. Meddyliwch am Hooch yn y ffilm *Turner and Hooch* a dyna chi. Dwi'n hoffi ysgrifennu, yn enwedig dweud straeon o'r Beibl mewn ffyrdd dychmygus, ac yn ddiweddar rwy wedi darganfod fy mod i wrth fy modd gyda chrefftau gwahanol, o beintiau i wneud rygiau.

Er fy mod i wrth fy modd gyda phob tymor, petawn i'n gorfod dewis un, tymor yr Hydref fyddai fy ffefryn. Ond eto, efallai y byddwn yn dewis y gaeaf ar ddiwrnod pan mae'n bwrw eira. Ond wrth i fi ysgrifennu hyn, yn edrych drwy'r ffenest ar ardd y Rheithordy, mae hwyaid bach eleni yn dechrau dysgu hedfan ac yn cael hwyl garw yn plymio i mewn i'r pwll. Mae tair wiwer yn hel mes o'r coed derw ac yn eu claddu nhw o gwmpas yr ardd. Dwi wedi hel mwyar duon i wneud crymbl. Dwi'n mwynhau'r addurniadau hardd mewn gwyliau diolchgarwch, a'r aroglau hyfryd wrth fynd i mewn i'r eglwys. Ond fy hoff beth i yn yr hydref yw concyrs, yn bendant.

Dwi'n cyffroi'n lân bob tro dwi'n gweld coed castan. Ac yn cyffroi hyd yn oed yn fwy wrth sylweddoli ei bod hi'n debyg nad oes neb yn hel concyrs mwyach. Felly bob blwyddyn, dwi'n cael casgliad ardderchog. Fy hoff beth ynglŷn â concyrs yw eu bod nhw'n ein hatgoffa i'n barhaus am ein perthynas â Duw, ein perthynas â'n ffrindiau a'n perthynas â chymdeithas ein heglwys. Pan fyddwch chi'n gweld concyr am y tro cyntaf, mae'n frown sgleiniog, hyfryd. Ond cyn bo hir, wedi'i wahanu oddi wrth y goeden, mae'n dechrau pylu, ac yn crebachu yn y diwedd. Dyma beth sy'n digwydd i ni a'n perthynas â phobl eraill pan fyddwn ni ddim yn treulio amser gyda'r bobl sy'n annwyl i ni, pan fyddwn ni ddim yn treulio amser gyda Duw. Ond os plannwn ni'r concyr hwnnw, ei fwydo a'i ddyfrio, bydd yn dechrau egino yn goeden gref ac yn cynhyrchu concyrs er mwyn i'r naill genhedlaeth ar ôl y llall eu mwynhau. Trosiad hyfryd ar gyfer yr eglwys, ein perthynas â'n gilydd, a chariad Duw droson ni.

Pob bendith,

Y Parchedig Rebecca

Ffôn: 01745 421424

E-bost RebeccaSparey-Taylor@cinw.org.uk

**Cyngerdd**

**nos Sadwrn, 12 Hydref**
**am 7 o'r gloch yn Neuadd y Pentre**

**Côr Meibion Caerwys**
**a cherddorion dawnus ifanc lleol**


**Tocynnau'n £10; plant am ddim**
**Yr elw at eglwys St Tyrnog.**

# Ysgol Bryn Clwyd

Roedd ein diwrnod cyntaf ni'n ôl yn yr ysgol ar ôl y trawsnewidiadau mawr i'r ystafell ddosbarth yn un braf iawn. Mae golwg dda iawn ar ystafell y Dosbarth Iau. Diolch i gyn-aelodau staff Costa Coffee, Rhuthun am gyfrannu eu dodrefn i'r ysgol pan fu'n rhaid cau ym mis Gorffennaf, ac i'r De-Part-Mental Store, Yr Wyddgrug am roi ambell fargen i ni ar eu dodrefn. Mae ystafell newydd gan y Babanod hefyd, lle gall y plant deimlo'n hapus, yn dawel eu meddwl ac yn barod i ddysgu.

Mae Llychlynnwr wedi bod i siarad â'r plant eisoes – diolch i Viking School Days am yr ymweliad gwych.

Aeth y Dosbarth Babanod i Pets at Home i chwilio am anifeiliaid anwes i'w dosbarth, a dewiswyd pedwar pysgodyn. Hefyd, aethon nhw am dro o gwmpas y pentre i chwilio am fannau arbennig i wneud mapiau o ble maen nhw'n byw/yn mynd i'r ysgol.





Cafodd y plant hwyl ar wneud llyfrnodau haniaethol yn y clwb celf.



Mae un o'n disgyblion, Aiden, wedi cael diagnosis o lewcemia madruddol acíwt. Ar hyn o bryd mae Aiden yn Ysbyty Alder Hey yn cael gofal gwych gan yr holl ddoctoriaid a nyrsys, ynghyd â'i fam a'i dad. Mae Aiden yn dangos dewrder a gwydnwch arbennig ac fel ysgol, rydyn ni'n hynod falch ohono!

Oherwydd natur cyflwr Aiden, mae hi wedi bod yn amhosib i'r teulu barhau i weithio oherwydd imiwnedd isel Aiden a'r perygl o afiechyd yn ei heintio. Rydyn ni yn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor am helpu'r teulu a'u cefnogi. Mae Aiden wedi eillio pen ein Pennaeth, Ben Lindquist, ac mae Ben wedi rhedeg hanner marathon Caernarfon i godi arian i Aiden a'i deulu. Hyd yn hyn mae'r dudalen GoFundMe wedi £5615. Os hoffech gyfrannu, ewch i https://www.gofundme.com/f/aiden-alder-hey.

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk

**WHEEL BUILDING UK**



**MOTORCYCLE WHEEL BUILDING SPECIALIST**

- Wheel Building
- Spoke Sets
- Aluminium/Chrome/Stainless Rims
- Vapour Blasting
- Metal Polishing
- Powder Coating

**MIKE 07455 244 480**
**mike@wheelbuildinguk.co.uk**
**www.wheelbuildinguk.co.uk**

# Tuesday Club



Y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Medi oedd Helen Murphy o Faes Llan. Gof copr yw Helen a hi sydd wedi gwneud y gemwaith copr hyfryd sydd ar werth yn siop Tŷ Ceffyl Bach.

Dysgodd ei chrefft ar gwrs gradd Celfyddydau Cymwysedig ym Mhrifysgol Wrecsam, ac mae ganddi radd meistr yn y pwnc. Mae'n dweud ei bod hi'n artist mewn sawl cyfrwng, gan gynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu, ond copr yw ei hoff gyfrwng. Mae hi'n hoff iawn o ddefnyddio gwlân hefyd, ac yn gresynu at sut mae'n cael ei wastraffu.

Daeth â sawl enghraifft o'i gwaith gyda hi, ac yn eu plith yr eitemau a wnaeth yn benodol ar gyfer bob blwyddyn o'i chwrs.

Mae ei gwaith wedi'i arddangos mewn sawl man, gan gynnwys Ffair Celf a Chrefft Aran yn Nolgellau eleni. Hefyd mae lluniau o'i gwaith wedi bod yn y cylchgrawn *Artist Talk*. Os hoffech chi ddysgu crefft ganddi, mae hi'n trefnu gweithdai yn yr Ystafelloedd Coco bob mis. Mae'r manylion am ar dudalen 14.

Diolchwyd yn ddiffuant i Helen am ei sgwrs ddifyr, a gweinwyd paned a thynnwyd y raffl. Bydd y cyfarfod nesa bnawn dydd Mercher, 16 Hydref am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco. Croeso cynnes i aelodau newydd!

# Capel y Dyffryn

**Cyflwyniad Cerddorol**

Cafwyd cyfarfod hynod o lwyddiannus yng Nghapel y Dyffryn ddydd Sul, Medi 22ain. Daeth y Parch Robert Parry B.Mus., B.D., Lerpwl atom i roi ei gyflwyniad unigryw o emynau sydd â thonau gan gyfansoddwyr clasurol yn ein llyfr emynau cyd-enwadol, *Caneuon Ffydd*. Mi ddechreuodd efo'r cyfansoddwr Bach, ac ymlaen at Handel, Mozart, Schubert a sawl un arall cyn gorffen efo Ralph Vaughan Williams, a'r gynulleidfa yn eu tro yn cael cyfle i gyd-ganu'r emynau.

Llywydd y noson oedd yr Athro Elwen Evans, CB, sydd wrth gwrs wedi ei geni a'i magu yn Nhy'n Llan, Llandyrnog. Pwysleisiodd pa mor bwysig iddi oedd Capel y Dyffryn.

Arweiniwyd y cyfarfod gan Nic Parry yn ei ffordd ddeheuig ei hun, ac ef hefyd a ddiolchodd i'r Parch Robert Parry am ei gyflwyniad cerddorol hyfryd, i Elwen Evans am ei haraith arbennig, ac i Gwyneth Evans a phawb oedd wedi helpu efo'r trefniadau. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at adeiladau'r Capel a Hosbis Sant Cyndeyrn.



*O'r chwith: Y Parch. Robert Parry, Yr Athro Elwen Evans, Nic Parry*

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 06/10 | **10.00** | Cyfarfod Gweddi |
| 13/10 | 10.00 | Diolchgarwch y Plant |
| 20/10 | 10.00 | Bryn ac Anwen |
| 27/10 | **10.00** | Oedfa'r Fro Trefnant |

# Newyddion Highfield Park



**Rhosedau i Dŷ Elm**
Cafodd trigolion Highfield Park wahoddiad arbennig i Sioe Flodau Llandyrnog ddiwedd mis Awst, a chael mynd i mewn yn gynnar cyn iddi agor i'r cyhoedd. Roedd trefnydd y sioe wedi gofyn a fyddai gan rai o'r trigolion awydd cystadlu yn y gystadleuaeth. Dewisodd dau o drigolion Tŷ Elm gystadlu yn yr adran gacennau, gan wneud *brownies* a chacennau bach. Er eu bod nhw heb ennill, cafodd y ddau rhoséd yr un am gystadlu, ac rydyn ni i gyd yn hynod falch ohonyn nhw. Da iawn chi!

**Garddwest haf Highfield Park**
Roedd hwn yn ddiwrnod gwych ym mis Gorffennaf, wrth i'r tîm gynnal yr arddwest flynyddol. Cerddoriaeth dda, *karaoke*, bwyd blasus, hufen iâ, te pnawn a gemau gwych oedd cynhwysion perffaith pnawn hwyliog o haf!

# Rysáit

**Focaccia**

Mae hwn yn does gwlyb, efallai y byddai'n well gennych chi ddefnyddio defnyddio cymysgydd bwyd gyda bachau ar gyfer toes os nad ydych chi'n hoffi dwylo toeslyd! Rwy wedi dewis olifau, a rhosmari a halen môr, ond cewch ddefnyddio unrhyw beth o'ch dewis chi.

**Cynhwysion**

500g blawd bara gwyn cryf
10g halen
10g burum parod
40ml olew olewydd
360ml dŵr claear
Tua 20 olif du a gwyrdd
Llond dwrn o rosmari ffres wedi'i dorri'n fân
Halen môr

**Dull**

Rhowch y blawd mewn powlen fawr.
Ychwanegwch halen at un ochr o'r blawd, a'r burum i'r ochr arall.
Ychwanegwch yr olew olewydd a 250ml o ddŵr. Trowch y cymysgedd o gwmpas i godi'r blawd i gyd, gan ychwanegu gweddill y dŵr wrth fynd. (Efallai na fydd angen yr holl ddŵr arnoch chi, neu efallai bydd angen rhagor. Dylai'r toes fod yn feddal.)
Ffurfiwch y toes yn fras, wedyn ei dylino ar arwyneb wedi'i iro ag olew am 5–10 munud i greu croen llyfn.
Rhowch y toes mewn powlen wedi'i hiro ag olew, ei orchuddio a'i adael i godi mewn lle cynnes am 1–3 awr nes bydd yn ddwbl ei faint.
Rhowch bapur pobi ar ddau hambwrdd pobi (tua 25×20cm) a'u hiro ag olew olewydd.
Rhowch y toes yn ofalus ar arwyneb wedi'i iro, gan gadw'r aer ynddo.
Rhannwch y toes yn ei hanner a'i ymestyn i orchuddio'r hambyrddau pobi.
Rhowch yr hambyrddau ar wahân mewn bagiau plastig a gadael i'r toes godi am awr arall.
Cynheswch y popty i 220 °C (200 °C popty ffan).
Gwnewch bantiau drwy'r ddau *focaccia* â'ch bys.
Ysgeintiwch y ddau ag olew. Taenwch rosmari a halen môr dros y naill, a rhowch olifau ar y llall.
Pobwch y ddau *focaccia* am 15 munud neu nes clywch chi sŵn gwag wrth daro gwaelod y bara yn ysgafn.

*Ivan Butler*





**Conservatories**



◊ Survey, supply and fit:
- conservatories
- orangeries
- verandas
- porches
- windows
- doors

**07546 911871**


# Gweithdai crefftau

Dewch i ddysgu crefft newydd bob mis. £25 yw'r cost y sesiwn, ac mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau, te, coffi a bisgedi. Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch neges at Helen, hbrookhouse@yahoo.co.uk.

**Hydref: Gwneud breichled o weiren gopr a gleiniau gwydr**

Dydd Iau, 24 Hydref 7–9pm
Dydd Sadwrn, 26 Hydref 10am–12pm



# Hanesion Hazel



Mae mis Hydref yn gallu bod yn union yr un peth â mis Ebrill mewn sawl ffordd; gallwn gael 'haf bach Mihangel' hyfryd, neu gall y tywydd fod yn ofnadwy. Dwi'n cynaeafau'r afalau Bramley cyn bod y gwyntoedd cryfion yn dod ac yn eu cadw i Bob eu bwyta drwy'r gaeaf. Mae anifeiliaid annisgwyl eisoes wedi bwyta llawer o fy afalau – fy ieir. Mae Mrs White wedi sylwi os ydy hi'n neidio i fyny'r goeden, gall gael llond ei bol o afalau. Mae gweddill yr haid wedi dysgu yn eitha cyflym, pan mae Mrs White yn gwneud hyn, eu bod nhw hefyd yn cael ambell afal hefyd sydd wedi syrthio. Cydweithio da – dydy ieir ddim yn ffôl.

Wrth i'r tywydd droi, dwi'n eistedd yn fy nhŷ gwydr sbâr, gan ei fod yn estyn y cyfle i fwynhau fy ngardd. Yn ddiweddar, daeth ffrindiau bore oes i aros gyda fi ac mae'n hyfryd cael cyfle i weld ein hardal hyfryd drwy eu llygaid nhw. Roedd fy ffrindiau'n dod o'r Almaen ac fe ddaethon nhw â rhestr dymuniadau gyda nhw – pysgod a sglodion a the hufen, a bagiau te cyffredin a salad cream, felly aethon ni i Morrisons i siopa. Roedd yn hoe fach bleserus, ond rhaid dychwelyd i'r drefn arferol ac mae angen tacluso'r ardd cyn y gaeaf.

I wneud i'r lle edrych yn groesawgar i ymwelwyr, penderfynais fod angen blodau newydd mewn sawl potyn, gan fod blodau unflwydd yr haf wedi dod i ben. Gall blodau mewn potiau harddu lle gymaint, ac maen nhw wrth fy nrws cefn, yn croesawu ymwelwyr a minnau bob tro rwy'n mynd heibio iddyn nhw. Sawl gwaith, bydda i'n prynu llwyni bach ifanc i'w rhoi mewn potyn ac wedyn yn eu plannu yn y brif ardd, gan ymestyn fy mwynhad ohonyn nhw. Syclamenau (llysiau'r hwch yw un enw Cymraeg am y *cyclamen*!) sydd fwyaf lliwgar, ac maen nhw ar gael mewn pinc, coch, porffor a gwyn. Wedyn gallwch eu plannu nhw mewn rhan gysgodol o'r ardda. Rwy'n plannu mathau o laswellt sy'n rhoi lliwiau coch cynnes wrth iddyn nhw aeddfedu yn y gaeaf.

Mae conwydd yn rhoi uchder i botyn hefyd, yn ogystal â'u bod yn fythwyrdd ac yn gweithio'n dda gyda'r rhan fwyaf o blanhigion eraill. Mae sawl amrywiaeth ar gael, mewn siapiau a lliwiau i gyd-fynd ag unrhyw gynllun plannu, ac eto gallwch eu trawsblannu yn eich gardd i aeddfedu. Mae gan i gonwydden frithliw wnes i ei phrynu flynyddoedd yn ôl mewn potyn – erbyn hyn mae dros 5 troedfedd o daldra.

Fe ffefrynnau eraill yw Hebes. Mae gen i ychydig o lwyni Hebes mawr yn yr ardd, ond gallwch gael rhai llai sy'n blodeuo yn y gwanwyn. Wrth gwrs, mae trilliwiau – pansis – y gaeaf ar gael hefyd ac yn para'n ddiddiwedd, ond yn y diwedd bydd y rhain yn dioddef mewn rhew. Dydw i ddim yn bwydo planhigion y gaeaf mewn potiau, yn wahanol i rai'r haf, ond ddim ond yn gofalu eu bod mewn compost da heb fawn ynddo. Dwi'n defnyddio unrhyw fath o botyn neu gynhwysydd. Beth am blannu blodau mewn cynhwysydd a dod ag ychydig o liw i'r gaeaf?

Hazel



# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Dyma grynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Medi o'r Cyngor Cymuned. Daeth Mathew Evans o Dîm Plismona'r Gymdogaeth i'r cyfarfod i roi'r newyddion diweddaraf:

- Ci wedi brathu rhywun, ond ar dir preifat
- Nifer o fygythiadau trwy gyfryngau cymdeithasol
- Mae swyddog ysgolion gan Heddlu Gogledd Cymru, a rhan o'i waith yw dysgu plant am ddiogelwch wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a'r we.Yfed a gyrru – mae Heddlu Gogledd Cymru yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth leol i helpu gyda'r mater hwn a bydd yn gweithredu os oes digon o dystiolaeth am droseddu cyson.

- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi trwydded i'r Cyngor Cymuned osod mainc gyferbyn â'r ffatri. Penderfynwyd gofyn am amcanbrisiau am osod y sylfaen. Mae *Llais Llandyrnog Voice* wedi cynnig cyfraniad sylweddol tuag at gost y fainc.
- Cafwyd cais gan Siop Llandyrnog Cyf. am gymorth ariannol. Ar ôl trafodaeth adeiladol penderfynwyd cynnig £5000.
- Mae hysbysiad am gyfethol aelod wedi'i lwytho i'r wefan ac wedi'i arddangos yn gyhoeddus.
- Cafwyd ôl-gais cynllunio i ddefnyddio ysguboriau yn Wern Farm i ofalu am gŵn yn ystod y dydd a'u lletya, ond nid oedd digon o wybodaeth ar gael i alluogi'r aelodau i benderfynu cefnogi'r cais.
- Er bod y tyllau yn y ffordd ar groesffordd Llangwyfan wedi'u llenwi, mae'r ffos ddofn tuag at Riwbebyll yn dal i fod mewn cyflwr peryglus. Bydd y gwaith yn cael ei wneud pan fydd arian ar gael.
- Mae'r gwaith cynhyrchu wedi dechrau ar hen safle Arla, ar raddfa fach ar hyn o bryd.
- Y Kinmel Arms – ni fydd caniatâd cynllunio yn cael ei ryddhau nes bydd pawb sydd ynghlwm â'r cytundeb unochrog yn ei arwyddo. Mae'r gwaith o baratoi hwn yn mynd rhagddo.
- Mae draenio dŵr ar wyneb y ffordd yn ardal Cross Keys yn dal i fod yn broblem. Yr esboniad ydyw bod y man lle mae'r dŵr yn dod allan yng Nghoed y Waen yn is na'r ffos, felly mae hi bron yn amhosib gwneud y gwaith glanhau angenrheidiol i gadw'r dŵr i lifo.
- Cyn bo hir, bydd hi'n adeg plannu blodau'r gaeaf ar y gylchfan – y Clerc i gydlynu hyn.


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602


# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 6ed | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 13eg | 11.15am | Cymun Bendigaid – Diolchgarwch y Cynhaeaf |
| | 3.30pm | Llan Llanast yn Neuadd y Pentref |
| 20fed | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 27ain | 10.30am | Boreol Weddi |